# Nodyn Gwybodaeth:
## Tomenni cynefin a Stwmpenni



### Tomenni craig/cerrig

**Yng nghefn gwlad, waliau cerrig sych yw un o'r amgylcheddau gorau ar gyfer bywyd gwyllt. Mae creu tyllau a chorneli o wahanol feintiau rhwng creigiau yn cynnig cysgod i greaduriaid bychain gan gynnwys amffibiaid, ymlusgiaid, pryfed a phryfed cop.**

- Un o'r ffyrdd hawsaf o ymgorffori'r cynefin hwn yn eich llecyn awyr agored yw trwy greu waliau o amgylch gwelyau uchel. Fodd bynnag, mae pentyrru ychydig greigiau gyda'i gilydd yn creu amgylchedd tebyg. Neu ceisiwch greu clawdd o gerrig sych a chlawdd pridd.
- Mae pentwr/wal sy'n wynebu'r gogledd yn darparu ar gyfer ystod ehangach o blanhigion ac anifeiliaid.

### Sefydlu

- Mae creigiau a cherrig o ffynonellau lleol yn cydweddu'n well â'r amgylchoedd a'r pridd lleol.
- Oherwydd bod y pentyrrau o greigiau/cerrig yn gweithredu fel 'coridorau' ar gyfer bywyd gwyllt, gadewch stribed o blanhigion heb ei dorri neu heb ei ladd bob ochr er mwyn darparu mwy o gysgod.
- Adeiladwch glawdd o gerrig sych a phridd trwy greu pentwr rhydd o gerrig i greu wal ddwy ochr, gan adael bwlch rhyngddynt. Adeiladwch haenau o bridd rhwng y cerrig yn ogystal ag yn y canol, ond gadewch fylchau fel y gall creaduriaid fynd i mewn ac allan. Gorchuddiwch y top gyda cherrig llydanach, gan lenwi fewn unrhyw fylchau â phridd unwaith eto.

### Cynnal a Chadw

- Ychydig o waith cynnal a chadw sydd ei angen ar bentyrrau o greigiau/cerrig. Yn dibynnu ar eu lleoliad, gellir gadael iddynt gwympo'n ddarnau dros amser, ac yna eu hailadeiladu'n fras.
- Cadwch lygad am goed a llwyni gerllaw a allai tyfu a niweidio pentwr, clawdd neu wal a chadwch unrhyw ganghennau strae wedi'u torri'n ôl.



### Cynghorion Doeth

- Ewch ati i annog cennau a mwsoglau i gytrefu wal newydd yn gyflym trwy ei phaentio â chymysgedd o iogwrt a thail.

# Nodyn Gwybodaeth:
## Tomenni cynefin a Stwmpenni

### Tomenni boncyffion a Stwmpenni

**Mae pentyrrau coed a stwmpenni yn dynwared coed marw a choed sydd wedi disgyn, gan ddarparu bwyd a lloches ar gyfer cyfoeth o fywyd gwyllt.**

- Ewch ati i greu pentwr coed trwy gasglu boncyffion ac yna'u pentyrru'n llorweddol. Os byddwch chi'n rhoi ambell bentwr o goed yn y cysgod (e.e. o dan lwyn) a rhai yn yr haul, fe gewch wahanol greaduriaid yn byw yn y gwahanol bentyrrau coed.
- Mae amodau llaith y tu ôl i risgl sy'n plicio yn ddeniadol iawn i wrachod y lludw, pryfed cop a chwilod, tra bod gloÿnnod byw a buchod coch cwta yn byw yn y rhannau sychach dros y gaeaf.
- Fel rhagofal, ceisiwch osgoi gosod y pentwr yn rhy agos at goed a llwyni byw oherwydd gall bacteria a chlefydau lochesu mewn boncyffion sy'n pydru.
- Peidiwch â tharfu ar bren marw sy'n dal i sefyll, oni bai ei fod yn beryglus efallai. Mae canghennau marw sy'n cael eu gadael ar y goeden o fudd i lawer o greaduriaid, yn enwedig cnocell y coed. Os oes rhaid cwympo coeden, gadewch y bonyn yn ei le.



### Sefydlu

- Yn rhyfedd iawn, efallai y bydd angen ychydig o ddychymyg er mwyn cael gafael ar foncyffion. Nid yw cymryd pren marw o fyd natur yn syniad da gan ei fod bob amser yn fwy o fudd i fywyd gwyllt os caiff ei adael yn y fan a'r lle y cwympodd. Efallai y bydd yn anghyfreithlon ei gasglu mewn rhai lleoedd hefyd. Gall ffrindiau, cymdogion neu rieni sydd â gwaith coed ar y gweill fod yn fan cychwyn da neu cysylltwch â llawfeddyg coed lleol. Mae boncyffion pren caled (coed llydanddail) yn para'n hirach na phren meddal (coed conwydd) ac yn ddelfrydol dylent fod yn dal â'r rhisgl yn ei le.
- Defnyddiwch foncyffion o wahanol hyd ond dim byd sy'n rhy frigog. Claddwch y boncyffion isaf yn y pridd ar ddyfnder o ychydig gentimetrau. Mae hyn yn eu cadw'n llaith a'r creaduriaid preswyl yn hapus.
- Plannwch rywogaethau fel rhedyn, clychau'r gog a briallu o amgylch eich pentwr coed i greu ymdeimlad o goetir. Gall pentwr coed neu stwmpfa fod yn lle gwych i blannu planhigyn dringo sy'n blodeuo e.e. gwyddfid er mwyn denu mwy o bryfed.

### Cynnal a Chadw

- Nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw gan mai'r syniad mewn gwirionedd yw gadael llonydd i'r pentwr. Fodd bynnag, mewn amodau sych iawn efallai y bydd angen i chi ddyfrio'r boncyffion er mwyn cadw awyrgylch llaith.
- Efallai y bydd angen i chi ychwanegu boncyffion newydd wrth i'r rhai gwreiddiol ddechrau dadelfennu.
- Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf o gynefinoedd, mae'n well gadael y pentwr coed/stwmpfa heb ei gyffwrdd ac arsylwi ar y trigolion o bell yn unig. Fodd bynnag, trwy godi boncyff o'r pentwr yn ofalus gallwch gael golwg agos ar y creaduriaid sy'n byw yno. Sicrhewch fod y boncyff yn cael ei osod yn ôl yn ofalus yn ei safle gwreiddiol.

### Cynghorion Doeth

- Mae lleoli pentwr o goed ger pwll yn darparu lle dianc a safle gaeafgysgu i frogaod, llyffantod ac amffibiaid eraill.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Nodyn Gwybodaeth:
## Tomenni cynefin a Stwmpenni





### Stwmpenni

**Caiff stwmpfa, sy'n debyg i greigres, ei chreu gyda rhannau o goed sydd wedi cwympo fel bonion a boncyffion. Drwy ddefnyddio defnyddiau a fyddai fel arall yn cael eu gwastraffu o bosib, mae stwmpenni yn cynnig ffordd ddiddorol o ddefnyddio'r defnyddiau hyn, gan ddarparu cynefin bywyd gwyllt gwych ar yr un pryd.**

Ewch ati i greu stwmpfa trwy osod boncyffion i sefyll yn agos at ei gilydd mewn safle fertigol, wedi hanner eu claddu mewn pridd. Sicrhewch fod y boncyffion yn hollol sefydlog. Paciwch bridd rhwng y bylchau er mwyn claddu gwaelodion y boncyffion.

Bydd y rhain yn cynnal rhywogaethau fel chwilod corniog sy'n hoffi pren marw llaith, hanner cladd.

Gwybodaeth gyfeirio o **www.buglife.org.uk** a **www.wildaboutgardens.org.uk**

### Stwmpenni Gwenyn

**Mae rhywogaethau unig fel saergacwn yn cael eu denu at foncyffion a choed marw, gan fod y rhain yn darparu safleoedd nythu diogel ar ffurf ceudodau gwag. Mae'n hawdd prynu gwestai gwenyn parod, ond beth am roi cynnig ar greu un eich hun?**

Dewiswch lecyn heulog a gosodwch nifer o foncyffion tal neu byst pren heb eu trin tua 2 fetr o hyd i sefyll yn unionsyth yn y ddaear. Gan ddefnyddio dril, dechreuwch wneud tyllau yn y postyn. Canolbwyntiwch ar yr ochr sy'n wynebu'r gogledd gan fod yn well gan wenyn nythu mewn lleoedd sy'n cael y mwyaf o haul.

Bydd gwenyn llai yn defnyddio tyllau 2-3mm ar draws, tra bydd gwenyn mwy o faint yn defnyddio'r tyllau mwy rhwng diamedr 8-10mm.

## Angen mwy o adnoddau dysgu, data a gwybodaeth?

E-bostiwch: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fersiwn/iaith arall neu brint bras:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk // 0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government